



# Anifeiliaid Dylan: Creu pyped bys o bapur sgrap

Cawsom ein hysbrydoli i wneud y prosiect hwn gan yr holl anifeiliaid yng ngherddi Dylan Thomas. Roedd Dylan yn aml yn ysgrifennu ar ddarnau o bapur a cherdyn sgrap, ond rydyn ni'n mynd i ddefnyddio'n papur a cherdyn sgrap ni i greu pypedau bys!



Dyma ddarn o bapur roedd Dylan yn ei ddefnyddio i ysgrifennu cerdd o'r enw 'Poem on his birthday'. Mae'r gerdd yn sôn am lawer o anifeiliaid ac adar, gan gynnwys crehyrod, dyfrgwn, eryrod, morfilod, gyflinod, mulfrain, pilcod, gŵydd gwyllt, ceffylau a dolffiniaid!



© Cyngor Abertawe | Swansea Council

Ar y daflen hon, roedd Dylan yn rhoi cynnig ar gyfuniadau o eiriau gwahanol i weld a oedden nhw'n cyd-fynd yn dda. Ar waelod y dudalen mae Dylan wedi ysgrifennu: 'plenty as blackberries in the woods \ as mackerel in the sea'. Ni chafodd y mecryll eu cynnwys yn y gerdd derfynol.


Rydyn ni'n mynd i greu dolffin, dyfrgi a macrell coll Dylan ar ffurf pypedau bys!

Bydd angen y canlynol arnoch i greu eich pypedau:

- Papur sgrap - gallwch ddefnyddio hen amlenni neu unrhyw bapur sgrap plaen sydd gennych o gwmpas y tŷ
- Rhywbeth i dynnu llun
- Glud
- Siswrn

Pethau ychwanegol opsiynol:

- Ffoil - o ddeunydd lapio bisgedi neu unrhyw ffoil tun (mae ffoil tenau'n haws i'w dorri)
- Clawr jar - i dynnu amlinelliad o'i gwmpas
- Amrywiaeth o binnau neu bensiliau lliw



Sut i'w creu:

### **Macrell coll Dylan: 'plenty as blackberries in the woods \ as mackerel in the sea'**

I greu macrell coll Dylan, tynnwch lun pysgodyn hir ar amlen. Os ydych chi'n defnyddio unrhyw fath arall o bapur sgrap, plygwch eich papur yn ei hanner oherwydd bydd angen dau bysgodyn o'r un faint arnoch i greu eich pyped. Gwnewch yn siŵr bod eich siâp yn ddigon mawr i fynd ar eich bys. Mae ein macrell yn 13cm o hyd a'i daldra yw 3cm.

Torrwch o gwmpas siâp eich pysgodyn. Erbyn hyn, dylai fod gennych ddau bysgodyn yn barod i'w haddurno!

Addurnwch eich pysgod; gallwch chi addurno un ochr neu'r ddwy ochr! Pysgodyn hardd yw'r macrell, ac mae ganddo gennau arian. Ar gyfer macrell 1., rydyn ni wedi defnyddio ffoil, pin du a phensiliau lliwio ar amlen frown. Ar gyfer macrell 2., rydyn ni wedi defnyddio pin ysgrifennu i dynnu llun ar amlen wen - daw'r patrwm wedi'i argraffu o'r tu mewn i'r amlen.

Gludwch eich mecryll at ei gilydd, a chofiwch adael bwlc digon o faint ar gyfer eich bys, fel y dangosir yn y llun uchod. Lled ein bwlc ni yw 2.5cm ac mae'n addas ar gyfer bys canolig. Pan fydd y glud wedi sychu, bydd eich pyped yn barod!




## Dolffin: 'Under a serpent cloud, \ Dolphins dive in their turnturtle dust,'

Gall bod yn anodd tynnu llun o ddolffin, ond mae gennym ni rai awgrymiadau a allai eich helpu!

- Os oes gennych chi glawr jar, gallwch ei ddefnyddio i'ch helpu i greu siâp bwa.
- Bydd siŵr o fod yn haws i chi dynnu llun yn ysgafn gyda phensil yn gyntaf, yna ail-lunio'r llinellau pan fyddwch chi'n hapus â'r amlinelliad.
- Peidiwch â phoeni os ydych chi'n gwneud camgymeriad - gallwch chi dynnu llun drosto!

I greu pyped dolffin, tynnwch lin cromlin ar amlen. Defnyddion ni glawr jar i greu siâp da. Fel gyda'r macrell, os nad ydych chi'n defnyddio amlen, cofiwch blygu'r papur yn ei hanner oherwydd bydd angen dau ddolffin arnoch.

Gallwch chi ddefnyddio ein harweiniad cam wrth gam i'ch helpu i dynnu llun gweddill y dolffin. Gwnewch yn siŵr bod eich siâp yn ddigon mawr i fynd ar eich bys. Hyd ein llun ni yw 10.5cm a'r lled yw 3cm ar y pen.



Pan fyddwch chi'n hapus â'ch amlinelliad, gallwch fynd drosto gyda phin neu bensil mwy tywyll a'i dorri allan.

I'w addurno, rydyn ni wedi defnyddio'r patrwm glas sydd y tu fewn i'r amlen a lliwio drosto gyda phensiliau lliw a phin tenau.

Gludwch eich darnau at ei gilydd, gan gofio gadael bwlch digon mawr ar gyfer eich bys. Lled ein bwlch ni yw 3cm ac mae'n addas ar gyfer bys canolig. Pan fydd y glud wedi sychu, bydd eich pyped yn barod!

**Dyfrgi:** 'On a seizing sky; small fishes glide \ Through wynds and shells of drowned \ Ship towns to pastures of otters.'

Rydyn ni wedi creu ein dyfrgi trwy lunio dau betryal ar gyfer y corff ac ychwanegu'r pen, y pawennau a'r gynffon ar ôl hynny.

Tynnwch lun petryal ar amlen neu ddarn o bapur sgrap wedi'i blygu yn ei hanner. Hyd ein siâp ni yw 8cm a'i led yw 5.5cm. Yna, dilynwch eich lluniau cam wrth gam i lunio wyneb, pawennau a chynffon



Pan fyddwch chi wedi tynnu'r llun ar y ddau ddarn gallwch eu lliwio, neu gallwch chi greu gludwaith o'ch cylchgronau ar gyfer blew y dyfrgi.

Torrwch y darnau allan a'u gludo at ei gilydd, gan ddefnyddio'r ffotograff fel arweiniad. Pan fyddwch chi'n gludo'r ddau ddarn at ei gilydd, cofiwch ludo ar hyd y ddwy ochr hir a'r pen ond peidiwch â gludo'r gwaelod oherwydd dyna ble fydd eich bys yn mynd! Rydyn ni hefyd wedi ychwanegu darnau tenau o bapur fel wisgers, ond gallwch chi dynnu llun ohonynt os hoffech chi. Gadewch i'r glud sychu - nawr mae'ch dyfrgi'n barod ar gyfer ei berfformiad gyntaf!



## Beth i'w wneud gyda'ch pypedau pan fyddwch wedi gorffen:

- Rhowch enwau iddyn nhw.
- Ysgrifennwch stori neu gerdd amdany'n nhw.
- Defnyddiwch eich pypedau bys i ddweud jôcs gwael wrth eich teulu.
- Rhowch un ar eich pensil i wneud gwaith ysgol yn fwy cyffrous!
- Dyluniwch a chrëwch ragor o bypedau bys o anifeiliaid gwahanol. Beth am geffyl, cath neu wylan?



Os ydych chi'n creu pypedau, byddem yn dwlu eu gweld! Gallwch chi eu rhannu ar Facebook: @CanolfanDylanThomas, ar Twitter: @CDTAbertawe, neu e-bostiwch ni yn [nicola.kelly@abertawe.gov.uk](mailto:nicola.kelly@abertawe.gov.uk)

Gobeithiwn y cewch chi hwyl gyda'r gweithgaredd hwn! I weld rhagor o weithgareddau a ysbrydolwyd gan Dylan Thomas a'n casgliadau, ewch i [www.dylanthomas.com](http://www.dylanthomas.com)